

**YM MANGOR,
ANELWN YN
UWCH NA'R
CYFFREDIN.**



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

CYNNWYS

- 01 GAIR GAN YR IS-GANGHELLOR
- 02-05 UCHAFBWyNTIAU 07/08
- 06-07 TABLAU'N ADLEWYRCHU GWERTHOEDD Y BRIFYSGOL
DEFNYDDIO TECHNOLEG I GEFNOGI ADDYSGU
PRIFYSGOL RYNGWLADOL
- 08-09 YSGOL I RADDEDIGION YN DOD I FANGOR
ADDYSGU MEWN ADDYSG UWCH (tHE)
SICRHAU BOD PAWB YN FFYNNU!
- 10-11 GWEDDNEWID CYFATHREBU YN EIN CARTREFI
ADEILADU AR Y JIG-SO NEWID HINSAWDD
LLWYDDO Y TU HWNT I BOB DISGWYL: CRYFDERAU YMCHWIL Y BRIFYSGOL
- 12-13 YDYM NI'N UNIAETHU AG EWROP?
HEL ATGOFION I HELPU RHAI SY'N DIODDEF O DDEMENTIA A'U GOFALWYR?
CAMAU BREISION YMLAEN MEWN YMCHWIL I DDWYIEITHRWYDD
- 14-15 RHOI GWYBODAETH AR WAITH
BANGOR YN CYNORTHWYO GYDA'R CYNGERDD 'RHITHWIR' CYNTAF
Y PRINCE MADOG A PHYSGOTA CYNALIADWY
- 16-17 SIOE GRADD CELFYDDYD GAIN GYN'TA'R BRIFYSGOL
- 18-19 MYFYRWYR Y GYMRAEG YN CYFRANNU AT DDIWYLLIANT Y WLAD
CYMUNED ALUMNI BANGOR



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Gyda balchder a phleser mawr rwy'n cyflwyno i chi arolwg blynyddol cyntaf 'Prifysgol Bangor'.

Wrth i mi ysgrifennu'r rhagair hwn rydym newydd dderbyn canlyniadau'r Ymarfer Asesu Ymchwil. Rydym wedi gwneud yn arbennig o dda. Ni yw'r unig Brifysgol yng Nghymru i gael ymchwil 'gyda'r orau yn y byd' ym mhob maes academiaidd a ystyriwyd, a hoffwn ddiolch i'r holl staff hynny y mae eu hymchwil wedi cyfrannu at ein perfformiad ac i bawb a weithiodd mor galed ar gyflwyniad y Brifysgol. Gyda'n gilydd rydym wedi cychwyn ar daith i roi Bangor ymhlith rhai o Brifysgolion ymchwil blaenaf y byd.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf rwyf wedi cyfeirio at y sialensiau mawr sy'n gysylltiedig â'n hystad, ac rydym yn gwneud cynnydd sylweddol sy'n adfywio'r adeiladau a darparu cyfleusterau llawer amgenach ar gyfer ein myfyrwyr a'n staff.

Erbyn hyn mae gennym neuaddau preswyl newydd sbon i'n myfyrwyr, sy'n rhan o ailddatblygu gwerth £35m ar safle Ffriddoedd;

Bydd cryfderau'r Brifysgol yn y Gwyddorau a'r Celfyddydau yn ganolbwynt unigryw ar gyfer arloesi, sy'n thema allweddol y datblygiad newydd. Yn arbennig, byddwn yn ceisio annog pobl ifanc i ymwneud â gwyddoniaeth, technoleg a menter, sy'n hanfodol ar gyfer adfywiad economaidd. Yn ogystal, bydd yr adeilad yn cynnwys cyfleusterau llawer gwell ar gyfer y celfyddydau i'r gymuned gyfan, yn cynnwys theatr, ystafelloedd darlithio, manau cynnal arddangosfeydd, bar a chaffi. Mae darpariaeth hefyd ar gyfer amffitheatr allanol y gellir ei defnyddio ar gyfer rhai perfformiadau. Ceir canolfan newydd a bywiog hefyd ar gyfer Undeb y Myfyrwyr, yn ogystal ag amrywiaeth o fannau newydd ar gyfer addysgu a dysgu.

Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn hefyd yn datblygu ymhellach ein Canolfan Ymchwil Dwyieithrwydd newydd gwerth £5m ar Ffordd y Coleg, ac rydym mewn trafodaethau ynglŷn â chynyddu ein hymwneud ag addysg feddygaeth gyda golwg ar ddatblygu Ysgol Meddygaeth ym Mhrifysgol Bangor am y tro cyntaf yn ei hanes.



GAIR GAN YR IS-GANGHELLOR

Neuadd JP wedi'i hadnewyddu ar gyfer ein Hysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau; Canolfan Rheolaeth newydd sy'n rhoi gwasanaeth i fusnesau lleol yn ogystal ag i'n myfyrwyr traddodiadol, ac adeilad modern a blaengar sy'n gartref i Ganolfan Amgylchedd Cymru. Rydym hefyd wedi cymryd camau sylweddol i wella mynediad i fyfyrwyr a staff gydag anabledau, ac wedi gwneud gwelliannau i Barc y Coleg, sy'n golygu ei fod yn lle llawer mwy dymunol i fynd iddo yn awr.

Un o'n prif gyhoeddiadau yn ystod y flwyddyn oedd dadorchuddio cynlluniau ar gyfer Canolfan y Celfyddydau ac Arloesi newydd gyffrous ac uchelgeisiol a fydd yn dod yn lle Theatr Gwynedd ac adeilad Undeb y Myfyrwyr. Bydd y ganolfan ysbrydoledig hon yn dod â busnesau, gwyddonwyr, y gymuned, a rhai sy'n ymwneud â'r celfyddydau, at ei gilydd mewn adeilad o'r radd flaenaf a fydd yn ganolbwynt llwyddiant yng ngogledd Cymru.

Rwy'n hynod falch o nodi unwaith eto bod ein sefyllfa ariannol wedi cryfhau ymhellach. Er ein bod yn wynebu cyfnod economaidd hynod anodd a chystadleuaeth gynyddol ym Mhrydain ac yn rhyngwladol, byddwn yn parhau i hoelio ein sylw ar gryfder ariannol a pherfformiad academiaidd. Mae llwyddiant yn y meysydd hyn yn ein galluogi i gystadlu â goreuon y byd. Yn wir, mae ein cysylltiadau rhyngwladol yn parhau i ddatblygu, ac rydym yn ymwneud yn agos â sefydlu'r Brifysgol Brydeinig newydd yn Kuwait, yn ogystal â chydweithio â nifer o Brifysgolion eraill ar draws y byd.

Gan edrych ymlaen i'r flwyddyn nesaf, byddwn yn dathlu 125 mlwyddiant y Brifysgol yn 2009 ac rydym am gynnal nifer o ddigwyddiadau i ddatlu'r achlysur arbennig hwn. Rwy'n mawr obeithio y gellwch ymuno â mi a'm cydweithwyr ar gyfer rhai o'r achlysuron hynny yn ystod y flwyddyn.

**Yr Athro Merfyn Jones
Rhagfyr 2008**



UCHAFBWyNTIAU 07/08

1. (ch-dd): Dr Paul Mullins, (Uwch Ffisegydd CM), Yr Athro Oliver Turnbull a'r Athro David Linden o'r **Ysgol Seicoleg** yn egluro wrth Weinidog y Cynulliad dros Wasanaethau Iechyd a Chymdeithasol, Edwina Hart AC, beth y gall y peiriant sganio ei wneud.

2. Penodwyd Mervyn Davies CBE yn Gadeirydd Cyngor y Brifysgol yn weithredol o 1 Rhagfyr 2007.

3. ch-dd: Yr Athro Oliver Turnbull, Yr Athro Adrian Burgess (Abertawe), Jane Hutt AC, Gweinidog y Cynulliad dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r Athro Dylan Jones (Caerdydd) yn ystod lansiad SNWC.

4. Y Golygyddion, chwith-dde: Yr Athro Peredur Lynch, Dr John Davies, Menna Baines a Nigel Jenkins yn dathlu lansiad o'r Gwyddoniadur.

Agorwyd yn swyddogol y peiriant sganio MRI diweddaraf (Delweddu Cyseiniant Magnetig) yn yr **Ysgol Seicoleg**. Hwn oedd y cyntaf o'i fath i'w osod yn unman ym Mhrydain. Mae'r peiriant sganio, gwerth £1.5m, yn allweddol i waith Uned Ddelweddu'r Ymennydd, a bydd yn cael effaith o bwys ar niwrowyddoniaeth wybyddol ym Mangor ac ar draws Cymru trwy Sefydliad Niwrowyddoniaeth Wybyddol Cymru. [1]

Penodwyd Mervyn Davies CBE yn Gadeirydd Cyngor y Brifysgol o 1 Rhagfyr 2007. Olynodd Ei Anrhydedd Eifion Roberts QC, a ymddeolodd wedi dros ddeng mlynedd yn Gadeirydd corff llywodraethu'r Brifysgol.

Yn frodor o Ogledd Cymru, mae Mervyn Davies yn un o fancwyr mwyaf blaenllaw y byd. Bu'n Gadeirydd Standard Chartered PLC ers mis Tachwedd 2006, a chyn hynny'n Brif Weithredwr Grŵp. [2]

Lansiwyd Sefydliad Niwrowyddoniaeth Wybyddol Cymru yn swyddogol yn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r rhwydwaith cydweithredol aml-ganolfan hwn yn tynnu at ei gilydd arbenigedd nodedig o safon ryngwladol mewn seicoleg ym mhrifysgolion Bangor, Caerdydd ac Abertawe, gyda buddsoddiad o dros £5 miliwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. [3]

Yn Ionawr, wedi degawd o baratoi, cyhoeddwyd *Gwyddoniadur Cymru yr Academi Gymreig*, a'i gyfar Saesneg *The Welsh Academy Encyclopaedia of Wales*. Golygwyd y cyfrolau gan Menna Baines, Dr John Davies, Nigel Jenkins, ynghyd â'r Athro Peredur Lynch o Ysgol y Gymraeg. Mae'r cyfrolau'n adnodd cenedlaethol a rhyngwladol o bwys.

Mae'r cyfrolau hefyd wedi elwa'n sylweddol ar arbenigeddau aelodau eraill o staff academiaidd y Brifysgol ym Mangor, yn eu plith Yr Athro Merfyn Jones (yr Is-Ganghellor); Yr Athro Nancy Edwards, Dr W.P. Griffith, Ms. Nia Watkin Powell a'r Athro Huw Pryce (**Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg**); Yr Athro Densil Morgan a Dr Robert Pope (**Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol**); Dr David Evans, Dr Sally Harper, Dr Pwyll ap Siôn, Mr Stephen Rees a Mr Wyn Thomas (**Cerddoriaeth**); a Dr Pam Michael (**Gwyddorau Cymdeithas**). [4]

Ysgol y Gyfraith Bangor oedd un o bedair prifysgol drwy'r byd i gynnal Rownd Derfynol Ranbarthol y gystadleuaeth bwysig Ffug Lys Barn Cyfraith Ewropeaidd. Bu myfyrwyr y gyfraith o 13 o'r prifysgolion gorau yn yr Unol Daleithiau ac Ewrop yn cystadlu ym Mangor, gydag Ysgol y Gyfraith Columbia, UDA a Phrifysgol Zagreb (yr enillwyr yn y diwedd) yn dod i'r brig ym Mangor.

£7m

'AGORWYD CANOLFAN YR AMGYLCHEDD CYMRU
YN SWYDDOGOL GAN GORDON BROWN.'



6. Agorwyd adeilad newydd gwerth £7m 'Canolfan yr Amgylchedd Cymru' yn swyddogol gan Y Prif Weinidog, Gordon Brown. Mae'r Ganolfan newydd yn gartref i arbenigedd gwyddonol Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC), y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH) a Phrifysgol Bangor. Bydd y labordy pwrpasol yn galluogi'r CEH a'r Brifysgol i weithio gyda'i gilydd yn agosach gan fod yn ganolbwynt i ymchwil a hyfforddiant ym maes yr amgylchedd yng Nghymru. (5,6,7)

5. Y Gwir Anrhydeddus Gordon Brown, Prif Weinidog, yn agor yn swyddogol Canolfan yr Amgylchedd Cymru. Gydag ef yn y llun mae Mrs Betty Williams AS, Yr Athro Alan Thorpe, Prif Weithredwr Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol a'r Is-Ganghellor, yr Athro Merfyn Jones.

6. Bu'r Prif Weinidog yn cyfarfod â staff y Brifysgol yn ein labordai yng Nghanolfan yr Amgylchedd Cymru. Yma mae'n siarad gyda Serinde van Wijk, Myfyrwraig PhD o'r Iseldiroedd.

7. Adeilad newydd Canolfan yr Amgylchedd Cymru (llun cefndir).



1. Peter Bennett-Jones
2. Guto Harri
3. Griff Rhys Jones
4. Yr Athro Juan Carlos Castilla
5. Gwilym Owen
6. Meic Povey
7. Jim Perrin

Roedd y rhai a dderbyniwyd yn Gymrodyr er Anrhydedd yn ystod Seremoniau Graddio'r Brifysgol eleni yn cynnwys: Cadeirydd Tiger Aspect Television, **Peter Bennett-Jones**; **Guto Harri**, Cyfarwyddwr Cyfathrebu Maer Llundain; y cyflwynydd teledu, **Griff Rhys Jones**; **Yr Athro Juan Carlos Castilla**, Athro Ecoleg Môr, Chile; **Gwilym Owen**, newyddiadurwr a darlledwr; **Meic Povey**, actor a dramodydd; **Jim Perrin**, dringwr creigiau ac awdur llyfrau teithio; **Siân Lloyd**, cyflwynydd tywydd; **Y Parch. Elfed ap Nefydd Roberts**, gweinidog wedi ymddeol ac awdur; **Y Gwir Anrh. Arglwydd Ustus John Thomas**, Barnwr yn y Llys Apêl; **Rhodri Glyn Thomas AC**; a'r pianydd o fri, **Llŷr Williams**. (1-12)

UCHAFBWYNTIAU 07/08



'BANGOR YW'R NOD I SEFYDLIADAU ADDYSG UWCH CYMRU'

Meirion Prys Jones,
Prif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg.



13.



14.

Daeth Dirprwy Brif Weinidog y Cynulliad a Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Ieuan Wyn Jones AC, i lansio canolfan a gostiodd £14 miliwn ac a fydd yn rhoi hwb i economi'r rhanbarth. Lleolir **Y Ganolfan Rheolaeth yn Ysgol Busnes Bangor** yng nghanol campws y Brifysgol. Bydd y ganolfan hyfforddi a datblygu yn cynnig ystod o wasanaethau i'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. (13, 14)

'Bangor yw'r nod i sefydliadau Addysg Uwch Cymru' yn ôl Prif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Meirion Prys Jones. Mewn cyfarfod i lansio Cynllun Iaith diwygiedig y Brifysgol, dywedodd fod darpariaeth academiaidd cyfrwng Cymraeg y Brifysgol, yn ogystal â'i gwasanaethau gweinyddol dwyieithog, yn rhoi'r sefydliad ymhell ar y blaen i sefydliadau addysg uwch eraill Cymru.


Croesawodd yr **Ysgol Cemeg** rownd derfynol Cystadleuaeth Genedlaethol Dadansoddwyr Ysgol i'w labordai fis Mehefin. Bu 16 o enillwyr rowndiau rhanbarthol yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth ar gyfer myfyrwyr Cemeg lefel AS, neu debyg, a noddir gan Adain Ddadansoddol y Gymdeithas Frenhinol Cemeg. Mae'r Ysgol Cemeg yn weithgar iawn wrth feithrin diddordeb disgyblion o bob oedran mewn gwyddoniaeth, a chemeg yn arbennig. Roedd croesawu'r gystadleuaeth genedlaethol bwysig hon yn fraint eithriadol.

13. Dirprwy Brif Weinidog a Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Ieuan Wyn Jones AC gyda'r Gwir Anrh. Dafydd Wigley, Cadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr Y Ganolfan Rheolaeth, a Dr Colyn Gardner, y Prif Weithredwr, yn ystod lansio'r Ganolfan yn ddiweddar.

14. Yn ystod lansio'r Ganolfan Rheolaeth mae (chwith-dde): Y Gwir Anrh. Dafydd Wigley, Cadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr y Ganolfan; Yr Athro Merfyn Jones, Is-Ganghellor y Brifysgol; Ieuan Wyn Jones AC, Dirprwy Brif Weinidog a Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth a Dr Colyn Gardner, Prif Weithredwr y Ganolfan.



11.



12.

- 8. Siân Lloyd gyda'r Is-Ganghellor, Yr Athro Merfyn Jones
- 9. Y Parch. Elfed ap Nefydd Roberts
- 10. Y Gwir Anrh. Arglwydd Ustus John Thomas
- 11. Rhodri Glyn Thomas AC
- 12. Llŷr Williams

TABLAU'N ADLEWYRCHU GWERTHOEDD Y BRIFYSGOL

Cynghorir ymgeiswyr prifysgol i ddewis pwnc y maent yn ei fwynhau, ymchwilio i'r prifysgolion sydd o ddi-ddordeb iddynt, ystyried yr amrywiol dablau cynghrair ac ymweld â'u darpar brifysgol – efallai mai dyma pam mae Bangor yn cael gymaint o hwyl ar recriwtio ar hyn o bryd!

Nododd canlyniadau'r trydydd Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr ym mis Medi, bod Bangor ymysg 'Deg Uchaf' prifysgolion y DU am addysgu. Roedd 85% o atebwyr Bangor yn fodlon gyda safon y dysgu ar eu cwrs. Cafodd saith maes pwnc ym Mangor raddfa boddhad o 93-100%: ymhell dros y cyfartaledd boddhad yn yr arolwg i gyd.

Yn arbennig: **Cerdd** 100% boddhad- y sgôr uchaf ar gyfer y maes pwnc hwn yn y DU, **Gwyddorau Chwaraeon** 98% 'yn fodlon', **leithoedd Ewropeaidd** 95%, **Hanes** 93%, **Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol** 93%, y **Gyfraith** 91%.

Gosodwyd Bangor yn y 10fed safle yn y DU o ran profiad myfyrwyr, mewn arolwg a gyhoeddwyd yn y cylchgrawn *Times Higher Education*. Ychwanegodd

hyn at y dystiolaeth sy'n cefnogi'r pwyslais y mae Bangor yn ei roi ar addysgu a phrofiad rhagorol i fyfyrwyr.

Roedd yr arolwg ar raddfa fawr ac yn gofyn i fyfyrwyr nodi, yn nhrefn pwysigrwydd, agweddau gwahanol ar brofiad prifysgol. Roedd y myfyrwyr yn ystyried bod safon uchel i'r darlithoedd a'r staff, bod y cyrsiau wedi eu strwythuro'n dda a bod y Brifysgol yn canolbwyntio ar anghenion unigolion. Roeddynt hefyd yn gwerthfawrogi'r bywyd cymdeithasol, y gweithgareddau a'r cymdeithasau, a'r awyrgylch a'r amgylchedd yn y Brifysgol ac yn ei chyffiniau.

Roedd myfyrwyr Bangor hefyd yn ystyried bod cefnogaeth a lles myfyrwyr, yn ogystal â pherthynas dda gyda staff dysgu, yn werthfawr, gan amlygu eto bwyslais y Brifysgol ar ansawdd uchel ei haddysgu a'i chefnogaeth i'w myfyrwyr.

Mae'n debyg hefyd bod darpar ymgeiswyr wedi gweld y newyddion a gyhoeddwyd yn *The Independent* a nododd bod Bangor yn y pedwerydd safle o ran bod yn lle rhesymol ei bris i astudio.



DEFNYDDIO TECHNOLEG I GEFNOGI ADDYSGU

'We will fight them on the beaches...' – ni fydddech yn disgwyl y byddai pobl ifanc heddiw yn gwrandao ar hyn ar eu cyfrifiaduron ond, serch hynny, caiff ei lawr lwytho gan fyfyrwyr Bangor fel un o adnoddau dysgu ar-lein yr **Ysgol Hanes, Hanes Cymru ac Archeoleg** o anerchiadau hanesyddol.

Dyma un enghraifft o'r modd y mae Technoleg Dysgu yng **Ngwasanaethau Technoleg Gwybodaeth** y Brifysgol yn gweithio gyda darlithwyr i gyfoethogi profiad dysgu myfyrwyr y Brifysgol a myfyrwyr eraill.

Mae Technoleg Dysgu hefyd wedi gweithio gyda **Chanolfan Bedwyr** i ddatblygu cwrs dysgu ar-lein o bell. Cwrs gloywi iaith ar gyfer athrawon, darlithwyr a hyfforddwyr sydd eisiau datblygu eu sgiliau Cymraeg yw'r Cynllun Sabothol Cenedlaethol. Bu Technoleg Dysgu'n cynorthwyo i ddarparu clipiau fideo, er mwyn cyfoethogi'r addysgu ar y cwrs dysgu o bell.

Mae Technoleg Dysgu'n gweithio gydag amrywiaeth o raglenni o'r fath, yn ategu a chefnogi dysgu yn hytrach na disodli darlithoedd traddodiadol.

Mae technoleg yn ei gwneud yn bosibl i gyfyngu'r defnydd o'r deunyddiau i bobl sydd wedi eu cofrestru ar y cwrs – neu hyd yn oed i unigolion ar y cyrsiau hynny. Er enghraifft, efallai ei bod yn haws gan unigolion ag anableddau wrando ar bodlediad o ddarlith wrth eu pwysau. Defnyddir podlediadau hefyd pan nad yw myfyrwyr yn gallu dod i ddarlithoedd am resymau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw.



10%

'O'N MYFYRWYR
O'R TU HWNT I'R DU;
900 OHONYNT I GYD.'



PRIFYSGOL RYNGWLADOL

Denwyd y nifer mwyaf erioed o fyfyrwr rhyngwladol o 70 o wledydd gwahanol i'r Brifysgol yn 2007/08. Erbyn hyn, daw dros 10% o'n myfyrwr o'r tu hwnt i'r DU; 900 ohonynt i gyd. Mae hyn yn cyfoethogi'r cymysgedd diwylliannol ym Mangor ac yn ein gwneud yn brifysgol wirioneddol ryngwladol.

Mae hanner ein myfyrwr ôl-radd yn dod o dramor ac maent yn gwneud cyfraniad sylweddol i ymchwil a dysgu. O ganlyniad i nifer cynyddol y myfyrwr rhyngwladol, gall Bangor yn awr gynnig a chefnogi ystod ehangach o bynciau ac arbenigeddau ar y lefel hon.

Busnes, bancio a chyllid yw'r pynciau mwyaf poblogaidd ymysg y myfyrwr rhyngwladol. Dilynir y rhain gan wyddorau ffisegol a gwyddorau naturiol. Fel y daw Bangor yn fwy adnabyddus yn rhyngwladol, daw myfyrwr yma i astudio amrywiaeth ehangach o bynciau. Daw nifer cynyddol o fyfyrwr israddedig yma trwy gynlluniau partneriaeth gyda phrifysgolion o dramor. Fel rheol, maent yn astudio am ddwy flynedd yn y brifysgol yn eu gwlad eu hunain ac yna'n dod i Fangor i astudio dwy flynedd olaf eu gradd yma.

Daw'r rhan fwyaf o'r myfyrwr o Tsieina, India a'r UDA, ond daw nifer sylweddol hefyd o Japan, Saudi Arabia, Malaysia a Nigeria,

sy'n golygu bod gennym gymysgedd cyffrous o ddiwylliannau. Caiff llawer ohonynt gefnogaeth gan eu llywodraeth, sy'n amlygu enw da Bangor am addysgu ac ymchwil o ansawdd uchel.

Mae'r myfyrwr yn ddieithriad yn gadarnhaol ynglŷn â'u profiadau ym Mangor, mae'r bobl yma'n wirioneddol groesawgar a chymwynasgar. Mae'r gymuned glos o fyfyrwr, yr amgylchedd diogel a naturiol a'r clybiau a'r cymdeithasau yn cynnig amgylchiadau cefnogol a phleserus ar gyfer astudio. Yn eu tro, bydd ein cyn fyfyrwr yn dychwelyd i'w gwledydd eu hunain fel llysgenhadon ar gyfer y genhedlaeth nesaf o raddedigion Bangor.



YSGOL I RADDEDIGION YN DOD I FANGOR


Mae myfyrwyr ôl-radd yng Ngholeg Celfyddydau a Dyniaethau'r Brifysgol newydd orffen eu blwyddyn gyntaf mewn Ysgol i Raddedigion bwrpasol yn y coleg.

Maent wedi cymryd rhan mewn fforymau ôl-radd a drefnwyd gan Dr Nathan Abrams (**Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau**) ac yn y gynhadledd ôl-radd amlddisgyblaethol gyntaf a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2008 ar y themâu 'Ffydd, ysbrydolrwydd a chrefydd'. Trefnwyd y gynhadledd gan bwyllgor o ôl-raddedigion, a bu'n llwyddiant ysgubol gan ddenu cynrychiolwyr o ledled y DU, gogledd America ac Ewrop. Yn dilyn y llwyddiant hwn, caiff y gynhadledd ei chynnwys ar galendr y coleg bob blwyddyn.

'Mae llwyddiant yr "Ysgol i Raddedigion" yng Ngholeg y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn dangos pam y byddwn yn rhoi'r model hwn ar waith yn chwe choleg y Brifysgol,' eglurodd yr Athro Colin Baker, Dirprwy Is-Ganghellor gyda chyfrifoldeb am ddysgu ac addysgu.

'Mae cymuned gref o raddedigion yn gwneud cyfraniad pwysig i fywyd academiaidd y Brifysgol. Gall darparu fforwm amlddisgyblaethol i raddedigion gyfarfod a rhannu syniadau fod yn brofiad sy'n cyfoethogi eu datblygiad academiaidd eu hunain.'

**'MAE CYMUNED GREF
O RADDEDIGION YN
GWNEUD CYFRANIAD
PWYSIG I FYWYD
ACADEMAIDD Y
BRIFYSGOL.'**



ADDYSGU MEWN ADDYSG UWCH (tHE)

Mae Prifysgol Bangor yn ymfalchïo mewn datblygu rhagoriaeth mewn dysgu ac addysgu, sy'n cofleidio datblygiadau arloesol a newydd. Mae'r Cynllun Addysgu mewn Addysg Uwch (tHE) wedi'i drefnu ar gyfer staff yn y Brifysgol. Y mae wedi'i lunio i gryfhau'r cysylltiadau rhwng ymchwil ac addysgu ac mae wedi'i gynllunio'n fwriadol i fod yn hyblyg i gynyddu cyfleoedd ar gyfer rhannu arfer da mewn addysgu ac ymchwil ar draws Bangor a thu hwnt. Caiff y Rhaglen tHE ei chynnal mewn partneriaeth gydag Abertawe, Aberystwyth, Llambled, ac Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd. Mae hyn yn rhoi cyfle i staff ddatblygu eu gwybodaeth am addysgu drwy gysylltu â chydweithwyr eraill ledled Cymru. Os cwblheir y rhaglen yn llwyddiannus, bydd hyn yn arwain at gymhwyster lefel Meistr ar ffurf Tystysgrif Ôl-radd, yn ogystal â chofrestru gyda'r Academi Addysg Uwch fel Cymrawd (FHEA).

Mae'r tHE wedi ymrwymo i strategaeth Prifysgol Bangor i hyrwyddo dysgu ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae yna gyfle i gymryd y rhaglen gynefino a nifer o weithdai yn Gymraeg.

Cydtynir y Cynllun gan yr **Uned Datblygu Academiaidd** yn y **Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes** sy'n cydlynu cyfres o weithdai datblygu proffesiynol parhaus drwy gydol y flwyddyn. Gellwch weld y rhain drwy wefan yr Uned Datblygu Academiaidd yn <http://www.bangor.ac.uk/adu/>



SICRHAU BOD PAWB YN FFYNNU!

Y cam cyntaf yw'r cam anoddaf ar unrhyw daith. Mae gwneud cais i brifysgol a dechrau yno yn arwain at nifer o gwestiynau i ddarpar-fyfyrwyr a myfyrwyr newydd – fyddai'n gallu ymdopi, fydd gen i ddigon o arian, ai hwn yw'r dewis iawn i mi?

Mae Prifysgol Bangor yn ymfalchïo yn ei gofal o fyfyrwyr ac ansawdd eu profiad dysgu. I wella profiad y myfyrwyr ymhellach, mae'r Brifysgol wedi datblygu fframwaith academiaidd a chymdeithasol newydd fel rhan o Strategaeth Dal Gafael ar Fyfyrwyr. Nod hwn yw sicrhau trosglwyddiad llyfn i fywyd prifysgol, ac y galluogir i gymaint o fyfyrwyr ag sy'n bosibl gwblhau eu hastudiaethau.



Gan adeiladu ar y Cynllun Arwain Cyfoedion llwyddiannus a sefydlwyd ers tro, mae gweithgareddau'r Wythnos Groeso a gweithgareddau addysgu cychwynnol yn cael eu ehangu – i sicrhau bod myfyrwyr yn dod i adnabod ei gilydd a'u staff dysgu yn gynnar. Mae elfennau eraill o fyw mewn prifysgol yn cael eu diweddarau hefyd: sicrhau bod grwpiau fel myfyrwyr rhyngwladol, myfyrwyr o ofal a'r rhai sy'n byw gartref, yn integreiddio'n llwyddiannus i'r gymuned fyfyrwyr. Mae'r Brifysgol hefyd yn defnyddio dulliau a ffafrir gan fyfyrwyr fwyfwy, fel e-bost, Facebook ac YouTube i roi gwybodaeth iddynt.

Enghraifft a sefydlwyd ers tro o ehangu cefnogaeth academiaidd yn yr **Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer**, ac a ddyblygir mewn llefydd eraill, yw'r ddarpariaeth o 'ddosbarthiadau cysgodi' mewn rhai o fodiwlau mwy heriol y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn. Ar ôl bod mewn darlith, gall myfyrwyr sydd ddim wedi cael gafael lwyr yn y pwnc fynd i sesiynau 'dal i fyny', a seilir ar anghenion y rhai sy'n cymryd rhan ynddynt, ac a arweinir gan fyfyrwyr ôl-radd yn yr Ysgol.

GWEDDNEWID CYFATHREBU YN EIN CARTREFI

Mae dyfais a ddatblygwyd yn yr **Ysgol Peirianeg Electroneg** yn addo chwyldroi technoleg cyfathrebu o fewn pum mlynedd. Bydd y ddyfais newydd yn cynyddu'n ddirfawr faint y data y gellir eu trosglwyddo – i'w gymharu â lawrlwytho 15 ffilm y funud. Mae'r gallu ganddi i gyfuno rhwydweithiau sydd ar hyn o bryd ar wahân, a bydd yn arwain at rwydweithio mwy o beiriannau domestig.

Efallai na fydd y ddyfais yn fwy costus na band eang ar hyn o bryd, a gallai ddechrau gweddnewid y modd yr ydym yn cael mynediad at gyfryngau gwledol.

Dr Jianming Tang a'i dîm sydd wrth wraidd project ymchwil Ewropeaidd o bwys i gyflwyno rhwydweithiau tra chyflym i gartrefi a swyddfeydd o bob math. Maent wedi ennill bron i €1 miliwn am y gwaith hwn. Mae Dr Tang hefyd wedi ennill Gwobr Ddichonoldeb Brian Mercer y Gymdeithas Frenhinol.

'Bydd y rhwydweithiau newydd, sy'n fwy ac yn gyflymach, yn chwyldroi adloniant cartref. Bydd hyn yn gwneud gweithio o bell yn llawer mwy hwylus, a gallai fod â llawer o gymwysiadau eraill, megis cynnal pobl hyn yn eu cartrefi, fel y gallai cymwysiadau fel tele-feddygaeth ffynnu,' yn ôl Dr Tang.

'Efallai ein bod yn meddwl sut y byddwn yn defnyddio cysylltiadau sydd gymaint yn fwy grymus, yn gymaint ag y meddylwn sut y gallem ddefnyddio unrhyw dechnoleg newydd, ond mae cymwysiadau'n datblygu trwy ddefnydd; fel y gwelwom yn achos technoleg y Rhyngryd a thelathrebu.'

'Bydd project Alpha yn cadarnhau ymhellach sefyllfa flaengar Bangor mewn ymchwil i delathrebu optegol,' ychwanegodd Dr Janming Tang.



Dr Jianming Tang

ADEILADU AR Y JIG-SO NEWID HINSAWDD

Mae Bangor yn weithgar wrth gefnogi a phenodi'r goreuon o blith ymchwilwyr gyrfa cynnar er mwyn parhau i ehangu ei chryfderau craidd.

Roedd ymchwilydd ifanc yn yr **Ysgol Gwyddorau Eigion** ymhlith wyth a dderbyniodd Gymrodoriaeth Uwch uchel ei bri gan y Cyngor Ymchwil i'r Amgylchedd Naturiol (a'r unig un i'w dyfarnu yng Nghymru).

Bydd y Gymrodoriaeth bum mlynedd yn galluogi i Dr Mattias Green barhau ei ymchwil ar y prosesau sy'n peri i'r gwahanol ddyfroedd gymysgu rhwng wyneb a gwely'r moroedd bas. Yn ei ymchwil newydd, aiff â'r ddealltwriaeth hon i'r cefnforoedd dyfnach.

Fel yr esbonia Dr Green; 'Mae cefnforoedd y byd yn chwarae rhan bwysig wrth reoli hinsawdd y byd. Mae'r prosesau sy'n rheoli wrth i'r cefnforoedd gymysgu, yn eu hanfod, yr un fath â'r prosesau a welir yn y moroedd bas - gwynt yn agos i'r wyneb a'r llanw yn agosach at y gwaelod. Mae'r cymysgu fertigol yn arwain at symud dŵr, gwres, maetholion

a llygredd rhwng y top a'r gwaelod. Bydd hyn yn fecanwaith pwysig y tu cefn i'r ceryntau cefnfor a welir ar raddfa fawr. Yr hyn nad yw'n glir yw sut y dylanwadwyd ar y cymysgu, ac o'r herwydd, geryntau'r byd, gan newid yn lefelau'r môr dros filenia.'

'Mae modelu'r hinsawdd yn ofnadwy o gymhleth. Mae'n rhaid i ni ddysgu fesul dipyn sut y mae ffactorau unigol yn effeithio ar system hinsawdd y byd yn ei chyfanrwydd. Bydd darganfod sut y mae ceryntau'r cefnforoedd wedi newid dros amser maith yn cyfrannu at ragfynegi newidiadau yn yr hinsawdd yn y dyfodol.'

Mae'r ymchwil yn elwa ar nifer o feysydd arbenigedd ym Mhrifysgol Bangor; mewn eigioneg, modelu cyfrifiadurol, llanw a chymysgedd llanw, yn ogystal â dealltwriaeth a gwybodaeth fanwl am lefelau a thymheredd y môr dros filenia.



Dr Mattias Green

LLWYDDO Y TU HWNT I BOB DISGWYL: CRYFDERAU YMCHWIL Y BRIFYSGOL



Am yr ail flwyddyn yn olynol, llamodd Prifysgol Bangor i fyny'r tablau cynghrair a luniwyd i fesur perfformiad ymchwil Prifysgolion y DU. Cododd Bangor o'r 44fed safle i'r 38ain safle o blith tua 120 o brifysgolion. Ond pan gymerir maint cymharol prifysgolion i ystyriaeth, mae Bangor yn codi uwchben prifysgolion mwy – y mae eu llwyddiant yn dibynnu ar eu maint – ac mae ymysg y 25 Prifysgol uchaf yn y DU.

Mae'r tablau, a lunnir gan y cylchgrawn *Times Higher Education*, yn mesur nifer y ceisiadau llwyddiannus a wnaed gan Brifysgolion i gyrrff cyllido arbenigol. Dim ond y projectau gorau oll a gyllidir gan y cyrff hyn – gwrthodir tua thri chwarter yr holl geisiadau.

Priodolodd Is-Ganghellor Bangor, yr Athro Merfyn Jones, y llwyddiant hwn i ansawdd da staff Bangor ac i waith caled gan y staff academiaidd a gweinyddwyr oedd yn gyfrifol am ennill y nawdd. 'Rydym yn llwyddo y tu hwnt i bobl disgwyl', meddai. 'Ar gyfartaledd mae aelodau staff ym Mangor yn cyflwyno mwy o geisiadau o safon uchel na'n cystadleuwyr, ac mae mwy ohonynt yn llwyddo.'

Mae'r Brifysgol wedi perfformio'n dda ym mhob maes gweithgarwch ac wedi bod yn arbennig o lwyddiannus yn y gwyddorau amgylcheddol – lle mae'r Brifysgol yn y 15 uchaf yn y DU. Enillodd Bangor fwy na miliwn o bunnoedd mewn grantiau mawr gan y Cyngor Cenedlaethor Ymchwil i'r Amgylchedd yn 2007-08, sy'n dangos rhagoriaeth go iawn a chydabyddedig.

Gwnaeth Bangor yn dda hefyd mewn iechyd a seicoleg iechyd ac yn y dyniaethau, ac mae wedi llwyddo'n rhyfeddol i ennill arian o elusennau ac o ffynonellau Ewropeaidd.

25 UCHA'

'PAN GYMERIR MAINT CYMHAROL PRIFYSGOLION I YSTYRIAETH, MAE BANGOR YN CODI UWCHBEN PRIFYSGOLION MWY – Y MAE EU LLWYDDIANT YN DIBYNNU AR EU MAINT – AC MAE YMYSG Y 25 PRIFYSGOL UCHAF YN Y DU.'

YDYM NI'N UNIAETHU AG EWROP?

Bydd ymchwilwyr o'r **Ysgol Gwyddorau Cymdeithas** yn holi unigolion sydd wedi cael profiad o genedl Ewropeaidd arall, trwy raglen cyfnewid myfyrwyr, faint maent yn closio at y syniad o Ewrop. Mae hyn yn rhan o raglen ymchwil Fframwaith 7 yr UE, sy'n para am dair blynedd, ac yn cynnwys saith gwlad.

Yn ogystal â chyn-fyfyrwyr, holir ffermwyr, pobl sy'n gweithio mewn gwledydd eraill a grwpiau penodol eraill am eu profiadau fel dinasyddion Ewrop. Mae tîm Bangor, o dan arweiniad yr Athro Howard Davis, yn gyfrifol am gydlynw'r ymchwil gan yr holl bartneriaid ar arwyddocâd bywgraffiadol profiad addysgol mewn gwlad Ewropeaidd arall. Bydd y canlyniadau'n helpu i egluro i ba raddau mae symud addysgol yn gwireddu'r nod o greu integreiddio arhosol ar draws ffiniau cenhedloedd Ewropeaidd.

Yr hyn sy'n unigryw am yr ymchwil yw bod dulliau cymhleth o holi a dadansoddi ar sail naratif hunangofiannol yn cael eu defnyddio er mwyn cael golwg dreiddgar o safbwynt 'gwaelod i fyny' yr unigolyn. Mae naratifau unigol yn ffynonellau delfrydol ar gyfer deall sut mae pobl yn mynd ati i lunio eu hunaniaethau a sut y maent wedi esblygu dros eu hoes. Dewisir pobl i'w cyfweld yn fwriadol o blith rhai sydd wedi cael profiadau mewn gwledydd eraill naill ai trwy eu haddysg, eu gyrfaedd a'u perthynas bersonol â phobl eraill, neu drwy effaith polisïau Ewropeaidd ar eu bywyd bob dydd. Y sefydliadau partner eraill yn y project Ewrohunaniaethau yw Prifysgol Queen's Belfast (cydlynnydd), Academi'r Gwyddorau Bwlgaria, Prifysgol Technoleg Tallinn, Prifysgol Magdeburg, Prifysgol Federico II, Naples a Phrifysgol Łódź.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan y project ar: <http://www.euroidentities.org/>

HEL ATGOFION I HELPŪ RHAI SY'N DIODDEF O DEMENTIA A'U GOFALWYR?

Mewn cyfnod pryd y mae nifer y bobl sy'n dioddef o ddemtia yn cynyddu'n gynt nag erioed o'r blaen, mae'r cyflwr bellach yn destun ymchwil bwysig ym Mangor. Mae astudiaethau o bwys yn cael eu cynnal, a'r nod yn y pen draw yw gwella ansawdd bywyd pobl â demtia a'r bobl sy'n gofalu amdanynt.

Ym mis Rhagfyr 2007, lansiwyd project ymchwil newydd pwysig sy'n ymchwilio i effeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd 'grwpiau hel atgofion' mewn helpu pobl â demtia a'u gofalwyr. Cynhelir y grwpiau gan weithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr, ac maent yn defnyddio ffotograffau, recordiadau a phethau eraill i ysgogi atgofion personol, gan helpu i gynnal cof hunangofiannol pobl â demtia a gwella eu perthynas â'u gofalwyr. Comisiynwyd y project £1.2 miliwn hwn gan raglen Asesu Technoleg Iechyd y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil Iechyd (NIHR HTA) ac fe'i harweinir gan yr Athro Bob Woods o'r **Sefydliad Ymchwil Gofal Meddygol a Chymdeithasol (IMSCAR)** a'r **Ysgol Seicoleg**. Mae wyth canolfan ar draws Cymru a Lloegr ynglŷn â'r ymchwil, ac mae bron i 200 o bobl â demtia a'u gofalwyr eisoes yn cymryd rhan.

Mae'r Athro Linda Clare, hefyd o'r Ysgol Seicoleg, wedi ennill nawdd ESRC ac MRC i ymchwilio i'r ymwybyddiaeth sydd gan bobl â demtia o'r hyn sy'n digwydd iddynt ac o'u cwmpas ar wahanol gyfnodau yn y cyflwr, ac mae'n cwblhau'r treial cyntaf erioed yn y DU o ailsefydlu gwybyddol i bobl â demtia, dan nawdd Cymdeithas Alzheimer. Hefyd mae'r Athro Woods, a'i gydweithwyr o IMSCAR, yn gwerthuso nifer o ymriadau seicogymdeithasol arloesol i bobl â demtia a'u gofalwyr teuluol, ar y cyd â UCL a Phrifysgol Hull.





'YM MEHEFIN 2008
LANSIWDYD *PRAWF GEIRFA*,
Y *PRAWF GEIRFA* WEDI'I
SAFONI CYNTAF ERIOED AR
GYFER PLANT DWYIEITHOG.'

CAMAU BREISION YMLAEN MEWN YMCHWIL I DDWYIEITHRWYDD

Mae'r **Ganolfan Ymchwil i Ddwyieithrwydd mewn Theori ac Ymarfer** ym Mangor wedi cael dylanwad sylweddol ar y maes gwyddonol a chymhwysol yn ei blwyddyn academaidd lawn gyntaf. Mae ymchwil gan staff yn y Ganolfan, a gyllidwyd gan y Cyngor Economaidd a Chymdeithasol, wedi ymddangos mewn cyfnodolion amlwg ac uchel eu parch. Roedd un papur niwrowyddoniaeth ymysg yr 20 uchaf o bapurau a lawrlwythwyd o'r cyfnodolyn gwyddonol ar-lein, *PNAS*, yng Ngorffennaf 2007. Mae ymchwilwyr hefyd wedi cyfrannu at lyfrau ac wedi cyflwyno amryw o bapurau, llawer ohonynt mewn cynadleddau rhyngwladol.

Ym Mehefin 2008, lansiodd *Prawf Geirfa*, y prawf geirfa wedi'i safoni cyntaf erioed ar gyfer plant dwyieithog. Hwn oedd y prawf cyntaf wedi'i safoni ar gyfer plant dwyieithog Saesneg-Cymraeg o wahanol raddau ac oedrannau. Mae eisoes yn gyfrwng tra gwerthfawr i addysgwyr, seicolegwyr ac eraill, a disgwylir y bydd erthygl a gyhoeddir yn fuan ar gynllun a threfniadau gweithredu'r prawf yn fodel i ymchwilwyr led led y byd.

Yn ystod y flwyddyn, dyfarnwyd grantiau ymchwil newydd a chyffrous, yn cynnwys un am £95,747 i Ineke Mennen, Athro Dwyieithrwydd, i astudio system goslef oedolion sy'n weithwyr mudol yng Ngorllewin Ewrop ac sy'n dysgu iaith newydd. Hefyd, dyfarnwyd grant o £750,000 gan y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd i'r Ganolfan ac i'r **Ysgol Seicoleg** ar y gyd, i alluogi'r Athro Guillaume Thierry i astudio niwrosemanteg. Gwnaed ymchwil mewn niwrowyddoniaeth a seicoieithyddiaeth arbrofol, a chynhaliwyd projectau ymchwil ym meysydd ethnograffeg a lleferydd.

Roedd amcanion eraill a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys datblygu hyfforddiant mewn ymchwil dwyieithrwydd er mwyn meithrin cryfder Prydain yn y maes, datblygu cysylltiadau cryf ag ymarferwyr a gwneuthurwyr polisi ac ymestyn cydweithio rhwng arbenigwyr mewn dwyieithrwydd.

RHOI GWYBODAETH AR WAITH

Cynhaliwyd Marchnad Arloesi gyntaf y Brifysgol yn **Technium CAST** ym Mai 2008. Roedd yr achlysur, a agorwyd gan yr Is-Ganghellor, yr Athro Merfyn Jones, yn gychwyn i Wythnos Busnes Gwynedd eleni.

Gyda dros 70 o bobl busnes yn bresennol, ymdriniodd y Farchnad Arloesi â chyfraniad y Brifysgol i ddatblygiad yr economi wybodaeth a'i gwasanaethau i fusnes. Cynhaliwyd yr achlysur pwysig hwn yn briodol ddigon yn un o adeiladau mwyaf modern y Brifysgol ar gyfer busnes – sef Technium CAST (Canolfan Uwch Dechnoleg Meddalwedd) yn Parc Menai.

Tynnwyd sylw at y thema 'Gweithio'n fyd-eang, dylanwadu'n lleol', fel elfen allweddol i ddull Bangor o ymdrin â chydweithio ag eraill.

Dangosodd cyflwyniadau sut roedd rhaglenni o bwys o fudd i fusnesau. Ymysg y rhain roedd y Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth, Lleoliadau GO Wales i Raddedigion a gwiriadau iechyd arloesol Synnwyr Business/Business Sense ym maes cynladwyedd.

Cafwyd cyflwyniadau astudiaeth achos hefyd gan gwmgiaid o Wynedd, sef Cyfle, Aquacure Ltd., Calon Lân ac ETL, pob un ohonynt wedi cyflawni projectau llwyddiannus gyda'r Brifysgol. Roedd y sylwadau gan y cynadleddwyr yn hynod gadarnhaol a gobeithir datblygu'r digwyddiad ymhellach yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Fel rhan o nawdd Prifysgol Bangor i Wythnos Busnes Gwynedd, cynhaliwyd cinio mawreddog gan y **Ganolfan Rheolaeth**. Gan annerch cynulleidfa luosog, fe wnaeth y siaradwr gwadd, Mr Mervyn Davies, Cadeirydd Standard Chartered Bank Plc a Chadeirydd Cyngor y Brifysgol, ganmol y Brifysgol am ei chyfraniad a'i hymrwymiad i ddatblygu economi'r rhanbarth. Mae'r Ganolfan Rheolaeth, mewn adeilad newydd ei adnewyddu, yn enghraifft amlwg o'r ymrwymiad hwnnw, gyda chefnogaeth rhaglen Amcan Un Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Chyngor Sir Gwynedd. Y Ganolfan yw cartref rhaglenni hyfforddi'r Brifysgol i weithwyr uwch ac arweinwyr, yn ogystal â'i chlwb busnes a gweithgareddau rhwydweithio.

BANGOR YN CYNORTHWYO GYDA'R CYNGERDD 'RHITHWIR' CYNTAF

Roedd y cyngerdd cyntaf gan gerddorfa broffesiynol yn 'Second Life' yn un o uchafbwyntiau Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth (PTG) rhwng y Royal Liverpool Philharmonic Orchestra ac **Ysgol Gerddoriaeth** Prifysgol Bangor, a gyllidwyd gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau.

Cynhaliwyd y cyngerdd yn 'Second Life' – y byd rhithwir lle gall pobl greu hunaniaethau gwahanol a byw bywyd 'rhithwir' – mewn neuadd gyngerdd rithwir, gyda fersiynau rhithwir (a elwir yn 'avatar') o'r arweinydd, Vasili Petrenko a'r cyfansoddwr, Kenneth Hesketh. Mae'n dangos pa mor bell mae'r RLPO wedi mynd wrth fabwysiadu technolegau cyfryngol newydd i ehangu eu cynulleidfa a sicrhau ffrydiau incwm masnachol newydd.

Erbyn hyn mae'r Gerddorfa'n amlwg ar y we, gan ddenu cynulleidfaedd ieuengach a'u galluogi i fwynhau ei cherddoriaeth trwy glipliau aml-gyfrwng a darnau sain y gellir eu llwytho i lawr. Hefyd, trwy gydweithio â *Classic FM* mewn cynhyrchu podcastiau, llwyddodd yr ensemble i gyrraedd cynulleidfa wirioneddol eang a chenedlaethol. Mae'r rhain, a gweithgareddau eraill, wedi cynyddu poblogrwydd y wefan a rhoi hwb i werthiant.

Mae'r project wedi arwain at geisiadau llwyddiannus eraill am grantiau gan y Gerddorfa, yn cynnwys ail broject PTG cydweithredol gydag Ysgol Cerddoriaeth ac Ysgol Astudiaethau Creadigol y Brifysgol.

'Roedd y Cyngerdd "Second Life" yn un o bedwar cam mewn project datblygu cyfryngol,' eglurodd Victoria Grimbly, yr Aelod Cyswllt Trosglwyddo Gwybodaeth.

'Mae'r Rhaglen PTG wedi ein galluogi i ddatblygu'r agwedd bwysig hon ar waith ymestyn allan y cwmni, gan roi i ni adnoddau ac arbenigedd na fyddem wedi medru eu cael na thalu amdanynt fel arall,' eglurodd Millicent Jones, Cyfarwyddwr Marchnata, Cyfathrebu a Chodi Arian y Gerddorfa.



Hawlfraint Mark McNulty



Y PRINCE MADOG A PHYSGOTA CYNALIADWY

Wedi iddynt droi at Mike Kaiser, Athro mewn Ecoleg Cadwraeth Môr yn yr **Ysgol Gwyddorau Eigion**, am gyngor ac arweiniad ar sut i greu polisi cynaliadwy ar gael pysgod ar gyfer label bwyd y *Co-op* ei hun, gwahoddodd yr archfarchnad yr Ysgol i roi cymorth iddynt wrth lansio'r polisi newydd. O ganlyniad, bu'r llong ymchwil, y *Prince Madog*, ar daith dra gwahanol, wrth i'r llong, staff a gwesteion hwylio i fyny'r Afon Tafwys i lansio'r polisi.

Meddai'r Athro Kaiser, sy'n awdurdod ar bysgodfeydd cynaliadwy, 'Rydym yn hynod falch o gael rhannu'n gwybodaeth a'n harbenigedd a chefnogi'r achlysur yma, oherwydd yr hyn mae'r *Co-op* ac eraill yn ei wneud i hyrwyddo dulliau pysgota cynaliadwy.'

'Mae'r *Co-op* yn buddsoddi arian er mwyn annog mwy o bysgodfeydd i wneud cais am dystysgrif y *Marine Stewardship Council*, corff sy'n pennu'r safonau uchaf ar gyfer derbyn bysgodfeydd cynaliadwy.'

Mae'n credu y bydd polisi'r *Co-op* yn gwneud gwahaniaeth mawr i bysgota ym Mhrydain.

'Wrth gymryd y safiad yma, mae'r *Co-op* ac adwerthwyr eraill wedi cau'r marchnadoedd ar gyfer bwyd o'r môr sydd wedi'i ddal drwy defnyddio arferion nad ydynt yn gynaliadwy. Bydd pysgotwyr ar eu hennill o ddod â llai o bysgod i'r lan, ond rhai o well ansawdd ac, yn y tymor hir, golyga hyn foedd a chyflenwadau pysgod iachach, ac yn y pen draw, fwy o bysgod i ni eu bwyta.'

Meddai'r Athro Siân Hope, Dirprwy Is-Ganghellor dros Drosoglwyddo Gwybodaeth a Menter, 'Dyma enghraifft syml, ond effeithiol, o sut y gall rhannu ein harbenigedd ag eraill gael effeithiau pwysig ac uniongyrchol ar ein bywydau bob dydd.'

Graddedigion Celfyddyd Gain BA



'MAE'R RADD UNIGRYW HON MEWN
CELFYDDYD GAIN YN YMDRIN AG
YSTOD EANG IAWN O DDIDDORDEBAU
CELFYDDYDOL, AR Y SAIL FOD
ARTISTIAID HEDDIW'N CAEL BUDD
O BROFIAD MEWN CYFRYNGAU
AMRYWIOL.'





SIOE GRADD CELFYDDYD GAIN GYNTA'R BRIFYSGOL

Roedd amrywiaeth o waith yn cael ei arddangos am y tro cyntaf yn Sioe Gradd Celfyddyd Gain gynta'r Brifysgol. Hon oedd uchafbwynt chwe blynedd o astudio dwys i'r myfyrwyr rhan-amser, a astudiodd y cwrs a gynigiwyd gan y **Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes** mewn lleoliadau ar draws gogledd-orllewin Cymru.

Arweiniodd creadigrwydd unigol cynaliadwy, ac ethos hyfforddiant wedi'i seilio ar ymarfer, at saith myfyriwr llwyddiannus yn arddangos eu gwaith yn Amgueddfa ac Oriol Gelf Gwynedd ym Mangor. Roeddynt ymysg y garfan fwyaf erioed o fyfyrwyr graddau rhan-amser i raddio o'r Brifysgol yr haf hwn.

Mae'r radd unigryw hon mewn Celfyddyd Gain yn ymdrin ag ystod eang iawn o ddiddordebau celfyddydol, ar y sail fod artistiaid heddiw'n cael budd o brofiad mewn cyfryngau amrywiol. Mae'r rhaglen yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ymarfer ym maes celfyddyd gain, gan feithrin creadigrwydd personol mewn cyd-destun cyfoes. Ymarfer unigol cynaliadwy yw egwyddor allweddol y radd, a chyflawnir hyn trwy ddarpariaeth mewn lleoliadau ar draws Gogledd Orllewin Cymru. Cwblheir y cwrs gradd trwy chwe blynedd o astudiaeth ran-amser, hyblyg ac mae'r rhaglen drwyadl yn cynnwys artistiaid gwadd, seminarau a hyfforddiant unigol, sy'n sylfaen i weithgaredd ymarferol yn y stiwdio.

Ifan Morgan Jones yn derbyn Gwobr
Daniel Owen yn yr Eisteddfod Genedlaethol



Manon Wyn Williams yn dangos ei Medal
Ddrama yn Eisteddfod yr Urdd

'DYMA BROFI DRACHEFN RAGORIAETH
EIN DARPARIAETH MA A PHD YM MAES
YSGRIFENNU CREADIGOL. MAE YSGOL
Y GYMRAEG, PRIFYSGOL BANGOR YN
DDEORFA AR GYFER NOFELWYR
NEWYDD CYMRU!'

Yr Athro Gerwyn Williams,
Pennaeth Ysgol y Gymraeg

MYFYRWYR Y GYMRAEG YN CYFRANNU AT DDIWYLLIANT Y WLAD

Fis Awst eleni enillodd Ifan Morgan Jones Wobr Goffa Daniel Owen yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Cylch am ei nofel *Igam Ogam*.

Cyflwynodd y gwaith yn wreiddiol ar gyfer ffolio MA mewn ysgrifennu creadigol y bu'n ei ddilyn yn rhan-amser yn **Ysgol y Gymraeg**, gradd yr enillodd Ragoriaeth ynddi.

Dyma'r trydydd tro mewn pedair blynedd i un o fyfyrwyr PhD/MA Ysgrifennu Creadigol Ysgol y Gymraeg ennill y wobr bwysig hon, gwobr lenyddol fwyaf yr Eisteddfod Genedlaethol y byddai unrhyw nofelydd yn falch ohoni. Yn 2006, myfyrwraig PhD mewn ysgrifennu creadigol, Gwen Prichard Jones, a enillodd y wobr gyda'i nofel hanes, *Dygwyl Eneidiau*, ac yn 2005, myfyrwraig MA ysgrifennu creadigol, Sian Eirian Rees Davies, a'i henillodd gyda'i nofel, *I Fyd Sydd Well*.

Wrth longyfarch Ifan, dywedodd Yr Athro Gerwyn Williams, Pennaeth Ysgol y Gymraeg: 'Dyma brofi drachefn ragoriaeth ein darpariaeth MA a PhD ym maes ysgrifennu creadigol. Mae Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor yn ddeorfa ar gyfer nofelwyr newydd Cymru!'

Yn gynharach yn y flwyddyn, enillodd Manon Wyn Williams Ysgoloriaeth Bryn Terfel wedi iddi ennill un o brif gystadlaethau actio Eisteddfod yr Urdd a hefyd Fedal Ddrama'r Eisteddfod. Aeth yn ei blaen i ennill gradd dosbarth cyntaf mewn Cymraeg: Iaith a Llenyddiaeth yn haf 2008.

'DIBEN Y RHAGLEN
CYSYLLTIADAU
ALUMNI YW GALLUOGI
ALUMNI I GADW
MEWN CYSYLLTIAD
Â'I GILYDD A CHYDA'U
HEN BRIFYSGOL...'



Aduniad cyn-fyfyrywyr Y Santes Fair yn Llandudno

CYMUNED ALUMNI BANGOR

Cafodd cymuned alumni Prifysgol Bangor, *Alumni Bangor*, ei lansio gan yr Is-Ganghellor, Yr Athro Merfyn Jones, yn 2005. Mae cyn aelodau'r Brifysgol, Prifysgol Cymru, Bangor, CPGC, Y Coleg Normal a Choleg y Santes Fair yn aelodau yn awtomatig.

Yn 2006-7 bu'r Brifysgol yn ymestyn allan at ei alumni yn lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnal digwyddiadau ym Mangor, Caerdydd, Llundain, yr Unol Daleithiau a China. Mae'r Brifysgol yn dal i weithio mewn partneriaeth agos â'r Bwrdd Ymgynghorol Alumni a chyda'r Gymdeithas Cyn-fyfyrywyr leol a Bangoriaid Llundain.

Diben y rhaglen cysylltiadau alumni yw galluogi alumni i gadw mewn cysylltiad â'i gilydd a chyda'u hen brifysgol, cynyddu eu cysylltiad â bywyd a datblygiadau'r Brifysgol a hyrwyddo perthynas gref a chefnogol rhwng alumni a'r Brifysgol, yn cynnwys ei myfyrywyr presennol.

'Mae cymuned alumni Bangor yn ymestyn i bedwar ban byd erbyn hyn. Mae gan ein alumni ewyllys da eithriadol tuag at y Brifysgol ac maent yn llysgenhadon gweithgar dros Fangor', meddai Rachel Davies, Swyddog Cysylltiadau Alumni.

Nod y Brifysgol yw sicrhau bod ei rhaglen cysylltiadau alumni nid yn unig yn cefnogi cenhadaeth y sefydliad ond ei bod hefyd yn darparu ar gyfer anghenion ei chyn-fyfyrywyr.

Yr Is-Ganghellor yn cyfarfod ag alumni yn China, Tachwedd 2007





www.bangor.ac.uk

